# CAIS AM DDYFYNBRIS:

# Dangos Gwerth Cymdeithasol colegau Addysg Bellach yng Nghymru

**Mai 2023**


ColegauCymru
Uned 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## 1. Gwybodaeth Cwmni

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | Colleges Wales / Colegau Cymru Limited<br>(Cwmni rhiant Fforwm Services Limited) |
| **Rhif Cwmni** | 2832103 |
| **Rhif Elusen** | 1060182 |
| **Is-Gwmni** | Fforwm Services Limited |
| **Rhif Is-Gwmni** | 3066192 |
| **Rhif TAW** | 655 9801 02 |
| **Swyddfa Gofrestredig a chyfeiriad gweithredol** | Unit 7, Cae Gwyrdd<br>Greenmeadow Springs<br>Tongwynlais<br>Caerdydd<br>CF14 7TE |
| **Arweinydd y Prosiect** | Rachel Cable |
| **Rhif Ffôn** | 029 2052 2500 |
| **Ebost** | Rachel.Cable@ColegauCymru.ac.uk |

## 2. Cefndir

Mae ColegauCymru yn elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru. Credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o'r radd flaenaf, a ddarperir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi. Rydym hefyd yn cynnull y Fforwm Penaethiaid Addysg Bellach, sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr addysg bellach (AB).

Rydym yn ymgymryd ag ymchwil a datblygu polisi ac yn darparu cymorth ymarferol i'r gymuned AB. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau, a rhanddeiliaid eraill, rydym yn helpu i lunio polisïau sy'n effeithio ar y sector AB, eu dysgwyr a'u staff. ColegauCymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

Mae Fforwm Services Limited yn gwmni cyfyngedig preifat ac yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i ColegauCymru. Mae'n blatfform lle mae gweithgarwch masnachol sy'n cynhyrchu incwm yn

cael ei sianelu, ac sy'n caniatáu inni hwyluso digwyddiadau, hyfforddiant a chynadleddau yn benodol i'r sector.

## 3. Rhesymeg

3.1 Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae ColegauCymru yn arwain prosiect ymchwil i sefydlu gwerth cymdeithasol AB yng Nghymru. Fel sefydliadau angori, mae colegau'n gwneud cyfraniad sylweddol i'w heconomïau a'u cymunedau lleol. Nod yr ymchwil hwn yw datblygu dealltwriaeth gyfredol o'u heffaith economaidd a gwerth cymdeithasol y sector colegau.

3.2 Yn 2017, cyhoeddodd ColegauCymru adroddiad Arddangos Gwerth Economaidd Colegau AB yng Nghymru. Dangosodd canlyniadau'r astudiaeth fod colegau AB yng Nghymru yn creu manteision cadarnhaol sylweddol i'w prif grwpiau rhanddeiliaid: dysgwyr, cymdeithas, trethdalwyr, a'r gymuned fusnes lleol. Defnyddiodd yr adroddiad ddull deublyg a oedd yn cynnwys dadansoddiad buddsoddi a dadansoddiad effaith economaidd rhanbarthol, i gyfrifo'r buddion i bob un o'r grwpiau hyn.

3.3 Mae'r dirwedd gymdeithasol, economaidd a gwleidyddol wedi newid yn sylweddol ers 2017, a byddai'r set ddata newydd hon yn galluogi ColegauCymru i ddangos tystiolaeth o effaith y sector, ac i fynegi ei fanteision i ddysgwyr, i gymdeithas; a mynegi effaith gwariant staff a cholegau; effaith sgiliau gweithlu ychwanegol mewn diwydiannau y tu hwnt i AB; effaith profiad y dysgwr; a'r effaith ar y gymuned fusnes leol.

3.4 Mae colegau yng Nghymru wedi'u gwreiddio ers tro yn eu cymunedau lleol, ac yn falch o weithio gyda phobl, gwasanaethau cyhoeddus a diwydiant. Mae gan golegau gyrhaeddiad dwfn ac eang, trwy eu campysau, eu gweithlu, gallu caffael, gyda chymunedau lleol, datblygu sgiliau, cysylltiadau diwydiant, a rolau arweinyddiaeth a gafodd effaith sylweddol yn eu hardaloedd lleol a thu hwnt.

## 4. Yr Ymchwil

4.1 Pwrpas yr ymchwil yw amlygu'r ysgogwyr strategol yn y sector AB, gan gynnwys rôl colegau fel sefydliadau angori, eu cenhadaeth ddinesig, a'u rôl mewn dysgu gydol oes.

4.2 Mae ColegauCymru yn gwahodd cynigion gan sefydliadau i gynnal ymchwil meintiol ac ansoddol ar:

Meintiol:

i. Dadansoddiad buddsoddiad – casglu data gan golegau AB (trwy rwydweithiau strategol ColegauCymru) a ffynonellau data cyhoeddus (e.e. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Stats Cymru ac ati) a darparu dadansoddiad o'r manteision i ddysgwyr, cymdeithas a'r trethdalwr, gan gynnwys:

- casglu data a dadansoddi'r arian a fuddsoddir gan ddysgwyr a'r pwrs cyhoeddus (er enghraifft, defnyddio model mewnbwn-allbwn);
- y gwerth y cynyddir potensial enillion dysgwyr iddo (rhagamcanu cynnydd mewn enillion dysgwyr i'r dyfodol dros gyfnod gyrfa, er enghraifft, trwy ddefnyddio swyddogaeth enillion cyfalaf dynol gan Jacob Mincer);
- dadansoddiad o fuddsoddiadau ac enillion ar fanteision AB;
- y buddion i drethdalwyr (dadansoddiad o'r buddion a'r costau i drethdalwyr - o ystyried bod dysgwyr yn ennill mwy yn ystod eu hoes, maent yn gwneud taliadau treth incwm uwch a chyfraniadau Yswiriant Gwladol; ac wrth i ddysgwyr ddod yn fwy cyflogadwy, mae'r galw am daliadau nawdd cymdeithasol yn lleihau; a bod cyflogwyr yn cynyddu eu hallbwn ac yn prynu mwy am gyflenwadau a gwasanaethau, maent o fudd i'r Trysorlys drwy dreth gorfforaeth uwch a thaliadau TAW);
- Mae'r ffynonellau data a'r gofynion i'w trafod yn y cyfarfod cychwynnol. Bydd cynigion yn cael eu profi ar sail y fethodoleg arfaethedig, gan adeiladu ar yr adroddiad blaenorol a gyhoeddwyd.

ii. Dadansoddiad effaith economaidd rhanbarthol – casglu data a darparu dadansoddiad o effaith gwariant staff a cholegau gan gynnwys:

- costau staff, a nwyddau a gwasanaethau;
- effaith gwariant dysgwyr gan gynnwys prynu llyfrau, cyflenwadau, cludiant, digwyddiadau chwaraeon, rhent ac ati;
- effaith sgiliau gweithlu ychwanegol mewn diwydiannau y tu hwnt i AB;
- cyfrifiad o gyfanswm yr effaith ar y gymuned fusnes leol.

Ansoddol:

4.3 Dylai'r darn data meintiol gael ei ategu gan ddadansoddiad ansoddol, gan ddefnyddio cyfweliadau â rhanddeiliaid i roi gwell dealltwriaeth o werth cymdeithasol y sector. Dylid casglu'r data ansoddol trwy gyfweliadau ag aelodau ColegauCymru, a thua deg o gyfweliadau â rhanddeiliaid allanol (er enghraifft, gyda chyrff cynrychioli cyflogwyr).

## 5. Gofynion

5.1 Disgwylir i'r cyflenwr wneud ymchwil a fydd yn cyflawni'r briff yn Adran 4. Gofynnwn i'r adroddiad terfynol fod yn ddogfen MS Word ddwyieithog, 1 copi yn Gymraeg ac 1 yn Saesneg i gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg ColegauCymru (y cyflenwr i dalu'r costau cyfieithu). Mabwysiadwn yr egwyddor wrth gynnal ein busnes cyhoeddus yng Nghymru na fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae copi o'n Cynllun ar gael ar ein gwefan, a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei wneud yn unol â'r cynllun hwnnw.

5.2 Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar 12 Mehefin 2023 gydag adroddiad drafft i fod cwblhau erbyn 30 Medi 2023 a'r adroddiad terfynol erbyn 31 Hydref 2023.

5.3 Bydd y fethodoleg ddisgwyliedig yn cynnwys dull dulliau cymysg gan ddefnyddio setiau data meintiol presennol (y rhai a gyhoeddir a'r rhai a ddelir gan sefydliadau unigol) a data ansoddol (trwy gyfweliadau lled-strwythuredig newydd gyda (arweinwyr presennol, blaenorol a darpar arweinwyr o'r sector). yn ychwanegu cyd-destun cyfoethocach i'r setiau data.

5.4 Nodir y dyddiadau arfaethedig ar gyfer monitro a diweddaru prosiectau isod a bydd yn cael ei gadarnhau yn y cyfarfod cychwyn prosiect:

| **Cyfarfod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cychwyn Prosiect | 12 Mehefin 2023 |
| Cyfarfod Adroddiad Terfynol Drafft | 30 Medi 2023 |
| Cyfarfod Adroddiad Terfynol | 31 Hydref 2023 |

5.5 Disgwylir i gyflenwyr, fel rhan o'u cais, ddatgan unrhyw berthynas neu gysylltiad ag unigolyn neu bersonau sy'n gyflogai arwyddocaol, wedi'u hethol neu eu henwebu, yn y sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas yr ymchwil.

5.6 Disgwylir i'r cyflenwr gwblhau rhestr brisio sy'n cynnwys TAW. Uchafswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw £50,000 gan gynnwys unrhyw TAW perthnasol.

## 6. Defnydd o Ganfyddiadau

6.1 Unwaith y bydd yr ymchwil wedi ei gwblhau, bydd y ddogfen yn cael ei defnyddio i roi adborth i Fwrdd ColegauCymru a Fforwm y Penaethiaid.

6.2 Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan ColegauCymru a'i rannu ag ystod o randdeiliaid allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

6.3 Dylai'r ymchwil fod mewn fformat y gellid ei gyhoeddi fel dogfen adroddiad annibynnol.

## 7. Amserlen

7.1 Mae’r amserlen fel a ganlyn:

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 17 Mai 2023 | ColegauCymru i ddarparu gwahoddiad i roi dyfynbris i sefydliadau dethol a rhannu ar ei wefan |
| 2 Mehefin 2023 | Cynigion a gyflwynwyd i ColegauCymru / Fforwm Services Limited |
| 9 Mehefin 2023 | Hysbysu sefydliad llwyddiannus ac ymgymerir â chontractio |
| 12 Mehefin 2023 | Dechrau'r prosiect |
| 30 Medi 2023 | Cyflwyno adroddiad drafft ac argymhellion i ColegauCymru |
| 31 Hydref 2023 | Adroddiad terfynol wedi ei rannu gyda ColegauCymru |

Dylid cyflwyno cynigion drwy e-bost i Rachel.Cable@ColegauCymru.ac.uk erbyn **5.00yp** ar **2 Mehefin 2023**. Mae Tîm y Prosiect yn croesawu ymholiadau ynghylch y dyfynbris hwn hyd at 1 Mehefin 2023. Ni roddir sylw i unrhyw ohebiaeth nac ymholiadau yn ystod y cyfnod pan penderfyniad contract yn cael ei wneud.